

# MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth

**www.stpadarns.ac.uk/cy/MADiwinyddiaeth**

Mewn Partneriaeth â Dyfarniadau
Cyffredin Prifysgol Durham



A ydych am ddyfnhau eich gwybodaeth o'r Beibl? A ydych eisiau ehangu gorwelion eich dealltwriaeth ddiwinyddol? A ydych eisiau gwella eich sgiliau ar gyfer y weinidogaeth, cenhadaeth ac arweinyddiaeth? A ydych eisiau archwilio sut y mae eich ffydd yn ymwneud â gwirioneddau'r byd heddiw? Os ydych chi, cwrs MA Athrofa Padarn Sant yw'r cwrs i chi.

## PAM ASTUDIO CWRS MA ATHROFA PADARN SANT MEWN DIWINYDDIAETH, GWEINIDOGAETH A CHENHADAETH?

Mae ein cwrs MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth wedi'i achredu gan Brifysgol Durham, sy'n rhan o'r Russell Group mawr ei fri ac sy'n un o'r prif brifysgolion ar gyfer diwinyddiaeth yn y byd. Mae gweledigaeth Athrofa Padarn Sant ar gyfer addysg ddiwinyddol yn cyfuno rhagoriaeth academaidd gydag ymrwymiad i ffurfiant a chenhadaeth, ac mae'r cwrs MA yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r weledigaeth honno. Bydd yn rhoi sail dda i chi mewn astudiaethau Beiblaidd, athrawiaeth Gristnogol, cenadaetheg, a diwinyddiaeth ymarferol, a bydd yn caniatáu i chi archwilio pynciau sydd o bwys penodol i chi. O fewn y pynciau a ddewiswch, bydd llawer o ryddid i ganolbwyntio ar eich meysydd diddordeb penodol chi neu i ymwreiddio eich astudiaeth yn eich sefyllfa neu'ch ardal leol.

Mae hwn yn gwrs hyblyg, rhan amser, a ddyluniwyd i wasanaethu pobl sy'n ymdrin ag amrywiaeth o ofynion ac ymrwymiadau. Fe'i cyflwynir mewn ffordd sy'n rhoi rhyddid i'r rheini sy'n brysur gyda'r weinidogaeth, sydd â swyddi eraill, neu sy'n byw yn bellach i ffwrdd.

Mae'r cwrs MA yn tynnu ar arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae eich tiwtoriaid yn arbenigwyr mewn meysydd diwinyddol a Beiblaidd amrywiol ac mae eu gwaith academaidd yn enwog am fod yn sensitif i'r materion presennol yn y weinidogaeth ac yn llygad y cyhoedd.

## AR GYFER PWY Y MAE'R CWRS MA HWN?

Mae'r cwrs MA wedi'i anelu'n bennaf at y rheini mewn gweinidogaeth Gristnogol leyg neu ordeiniedig ac mae'n agored i bob enwad a thraddodiad diwinyddol. Mae hefyd yn addas i bobl sy'n gweithio i sefydliadau ar draws eglwysi, y mae'r gweithlu 'seciwlar' yn faes cenhadu iddynt, neu sy'n ceisio gwasanaethu eu heglwys leol mewn capasiti anffurfiol. Bydd y cwrs yr un mor werthfawr i raddedigion diwinyddiaeth neu astudiaethau crefyddol sy'n dymuno datblygu eu hastudiaethau.

## BETH YW'R GOFYNION MYNEDIAD?

Fel arfer, bydd gan ymgeiswyr radd mewn Diwinyddiaeth neu Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, ceir llwybrau mynediad amgen sy'n galluogi pobl heb addysg ddiwinyddol ffurfiol ond sydd â phrofiad sylweddol o'r weinidogaeth i wneud cais. Os yw hynny'n berthnasol i chi, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

## YNGLŶN AG ATHROFA PADARN SANT

Adain hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru yw Athrofa Padarn Sant. Mae'n anelu at chwarae ei rhan yn y broses o arfogi a grymuso pobl Duw ledled y byd i gyfleu cariad trawsnewidiol Duw.

## Y TÎM ADDYSGU

Mae **Elizabeth Corsar** yn Diwtor Astudiaethau Beiblaidd yn Athrofa Padarn Sant. Cwblhaodd ei Doethuriaeth ym Mhrifysgol Caeredin. Ymysg ei diddordebau ymchwil mae'r Efengyl yn ôl Ioan a'r berthynas rhwng testunau canonaidd ac anghanonaidd.

Esgob Caerhirfryn yw **Jill Duff** ac mae'n gyn Bennaeth Coleg St Miletus, Gogledd-orllewin Lloegr. Mae wedi darlithio'n helaeth ar Genhadaeth ac Efengylu ers blynyddoedd lawer ac mae'n gyfathrebwr arbennig.

Mae **Siôn Aled Owen** yn Diwtor mewn Diwinyddiaeth Gymreig yn Athrofa Padarn Sant. Mae ganddo Ddoethuriaeth mewn diwinyddiaeth a Doethuriaeth mewn addysg ddwyieithog. Mae'n fardd sy'n cyhoeddi gwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ei brif ddiddordeb o ran ymchwil diwinyddol yw'r berthynas rhwng ffydd a hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae **Mark Griffiths** yn rhan o dîm Athrofa Padarn Sant gyda chyfrifoldeb am Feithrin Disgyblion, Gweinidogion Trwyddedig Newydd a Datblygiad Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Bu'n Bennaeth y Weinyddiaeth Plant a Theuluoedd New Wine am 13 mlynedd. Mae ganddo Ddoethuriaeth yn nhwf yr eglwys ac efengylu ymysg plant.

**Jordan Hillebert** yw Cyfarwyddwr Ffurfiant a Thiwtor Diwinyddiaeth Athrofa Padarn Sant. Mae ganddo PhD o Brifysgol St Andrews. Mae'n dysgu athrawiaeth a moeseg Cristnogol, ac mae ei ddiddordebau ymchwil ym maes diwinyddiaeth systematig a syniadau Cristnogol modern.

**Charlie Hadjiev** yw Cyfarwyddwr Rhaglen y cwrs MA. Mae ganddo DPhil o Brifysgol Rhydychen a phrofiad helaeth mewn addysg ddiwinyddol a chenhadaeth Gristnogol yn y DU a ledled Ewrop. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys esboniadaeth a phroffwydoliaeth yr Hen Destament.

**Jane Williams** yw'r Athro McDonald mewn Diwinyddiaeth Gristnogol**.** Roedd hefyd yn Ddarlithydd gwadd mewn Diwinyddiaeth yn King's College Llundain, ar ôl dysgu'n flaenorol yn Trinity College, Bryste. Mae'n olygydd profiadol, fe'i gwahoddir yn rheolaidd i addysgu a siarad dros y byd, ac mae'n ymwneud â hyrwyddo addysg ddiwinyddol mewn rhannau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd.

## SUT Y MAE'R CWRS YN CAEL EI ADDYSGU?

Mae hwn yn gwrs rhan amser (dwy flynedd yn ogystal â thraethawd) sydd wedi'i ddylunio i alluogi pobl sydd â bywydau prysur i astudio. Fe'i darperir mewn ffordd hyblyg drwy dri chwrs preswyl y flwyddyn wedi'u hategu gan ddarpariaeth a chefnogaeth ar-lein.

Mae'r cyrsiau preswyl yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Mercher ar ein safle yng Nghaerdydd, lle y mae gennym lyfrgell eang ac ystafelloedd addysgu sydd â llawer o gyfarpar. Mae croeso i chi addoli ochr yn ochr ag aelodau'n coleg diwinyddol yn ein capel deniadol. Mae ein llety en-suite yn fodern a phwrpasol.

## PA FODIWLAU A GYNIGIR?

I gwblhau'r rhaglen Meistr, bydd angen i chi ddilyn chwe modiwl a addysgir a chwblhau traethawd 15,000 o eiriau ar bwnc o'ch dewis. Mae'r modiwlau presennol yn cynnwys:

**Y Beibl a'r Ffydd Gristnogol: Esboniadaeth Feiblaidd**

Mae'r modiwl hwn yn archwilio beth y mae darllen y Beibl yn dda yn ei olygu. A oes ffyrdd dilys ac annilys o ddadansoddi'r Ysgrythurau? Pwy sy'n penderfynu ac ar sail pa feini prawf? Sut y mae ein darlleniad o'r Beibl wedi'i gysylltu â rheswm, ffydd, emosiwn, traddodiad, a chymuned?

**Astudiaethau Beiblaidd Uwch: Efengyl Ioan**

Byddwn yn edrych ar Gristoleg unigryw Ioan a'r ffordd y mae'r efengyl yn ymdrin â phynciau fel cenhadaeth, disgyblaeth, moeseg, a'r "Iddewon". Byddwn hefyd yn ystyried sut y dadansoddwyd yr efengyl gan genedlaethau diweddarach o ddarllenwyr. Bydd myfyrwyr yn meithrin gweledigaeth o sut y mae esboniadau Beiblaidd yn hysbysu bywyd a chenhadaeth Gristnogol.

**Y Ffydd Gristnogol a'r Amgylchedd**

Sut y gall dysgeidiaeth ac arferion y ffydd Gristnogol hysbysu ein dealltwriaeth o'r greadigaeth a'n perthynas â chreaduriaid eraill? A oes dadansoddiad o'r argyfyngau amgylcheddol presennol a'r ymateb iddynt sy'n benodol Gristnogol?

**Ymarfer Myfyriol: Cenhadaeth ac Efengyliaeth**

Byddwn yn archwilio safbwyntiau Beiblaidd, hanesyddol a diwinyddol amrywiol ar genhadaeth a byddwn yn ystyried sut y gellir eu rhoi ar waith mewn sefyllfaoedd lleol penodol. Bydd y myfyrwyr yn cael cyfle i fyfyrio ar ddulliau a strategaethau cyfoes mewn cenhadaeth ac efengyliaeth.

**Pwnc Uwch mewn Athrawiaeth Gristnogol: Y Drindod**

Y Duw y mae Cristnogion yn ei addoli yw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan, Un Duw mewn Tri Pherson. Dyma'r sail ar gyfer pob dim arall a ddeallwn am Dduw. Bydd y modiwl hwn yn ein cynorthwyo i archwilio pam mai dim ond y Duw hwn sy'n gallu bod yn Greawdwr ac yn Waredwr i ni.

**Ymchwil a Myfyrio**

Mae myfyrio diwinyddol yn sgil pwysig ar gyfer gweinidogaeth Gristnogol effeithiol. Mae'r modiwl hwn yn archwilio natur y sgil hwn a'r dull o'i ymarfer. Byddwn yn edrych ar wahanol fathau a dulliau o ymchwil ac yn ystyried sut y mae ymchwil da yn cefnogi ymarfer a gweinidogaeth Gristnogol ffyddlon.

## BETH YW'R BROSES YMGEISIO?

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn 31 Gorffennaf er mwyn dechrau ym mis Medi.

## I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

Cysylltwch â Tina Franklin, Cydgysylltydd Ôl-raddedig:
tina.franklin@stpadarns.ac.uk
neu ewch i
https://www.stpadarns.ac.uk/cy/courses/ma-theology/

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff
Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru  Rhif Cofrestru'r Elusen 1142813